# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES

**(VIa Microsoft Teams)**

**<u>Aelodau sy'n Bresennol:</u>** **<u>Dydd Llun, 5 Gorffennaf 2021</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd L.M.Purcell** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Galsworthy** |
| **Cynghorwyr**: | A.P.H.Davies, O.S.Davies, J.Miller, S.H.Reynolds, D.Whitelock, A.N.Woolcock, C.Edwards, W.F.Griffiths a/ac N.J.E.Davies |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Jarrett, K.Warren, J.Hodges, R Davies, A.Bradshaw, Davies, G.Evans, C.Frey-Davies, D.Harding, Potts, H.Short, T.Davies a/ac C.John |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.R.Lockyer a/ac P.D.Richards |

---

## 1. <u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Mai 2021 fel cofnod cywir.

## 2. <u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

<u>Polisi Gosodiadau Tai a Rennir Ymgynghorol Drafft Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Tai Tarian 2021</u>

Hysbyswyd yr aelodau o Bolisi Gosodiadau Tai a Rennir Ymgynghorol Drafft Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Tai Tarian 2021. Ynghyd â'r cais am ymarfer ymgynghori cyhoeddus 90 niwrnod, fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr aelodau'r falch o weld y polisi. Fodd bynnag, teimlwyd y byddai angen Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles ar wahân. Gan alluogi'r Pwyllgor i ystyried yr adroddiad manwl yn ofalus a bwydo i'r ymgynghoriad.

Yn dilyn y gwaith craffu, roedd yr Aelodau'n gefnogol o'r argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet ynghyd â threfnu Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles ychwanegol er mwyn caniatáu i'r Aelodau Craffu fwydo i mewn i'r broses ymgynghori.

Canolfan Adnoddau Ymyrryd yn Gynnar a Chyfiawnder Ieuenctid CNPT

Cafodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar newydd sydd hefyd yn adnodd ar gyfer Gwasanaethau Plant, a adwaenid gynt fel Canolfan Ddydd Abbeyview ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth, fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Canmolodd y swyddogion yr adroddiad a chroesawyd yr adroddiad cadarnhaol.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu - Castell-nedd Port Talbot, dyddiedig Mawrth 2020

Cyflwynwyd canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i'r Aelodau yn dilyn ei hadolygiad o 'Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (NPTCBC)', fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cafwyd trafodaethau ynghylch trefniadau adrodd Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau Corfforaethol. Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant. Cadarnhaodd swyddogion y gallai'r canfyddiadau gael eu rhannu â phwyllgorau eraill pe bai'r Pwyllgor yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol.

Gofynnwyd am eglurder ynghylch y flwyddyn y cyfeiriwyd ati yn y paragraff canlynol, 'Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio'r cofrestrau risg diwygiedig yn eu cyfarfod ar 19 Medi 2018. Nid yw'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu cofrestr risg y cyngor yn rheolaidd ac nid yw wedi

derbyn adroddiad pellach ar reoli risgiau corfforaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.' Cadarnhaodd swyddogion fod 'y llynedd' a grybwyllir yn y paragraff yn cyfeirio at 2019.

Gofynnodd yr Aelodau pa mor dda yr oedd yr un pwynt mynediad yn gweithio o ran cynorthwyo diogelu. Cadarnhaodd swyddogion fod arolygiad diogelu wedi'i gynnal yn ddiweddar a oedd yn cynnwys adborth cadarnhaol mewn perthynas â'r un pwynt mynediad.

Holodd yr Aelodau ynghylch y posibilrwydd o gael un polisi ar gyfer gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar draws yr awdurdod cyfan. Tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith nad oedd polisi ar draws y cyngor ar gael ar hyn o bryd oherwydd y gwahanol reoliadau y mae angen eu hystyried.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Polisi Codi Tâl am Ofal Preswyl a Dibreswyl

Cafodd yr Aelodau’r wybodaeth ddiweddaraf am y Polisi Codi Tâl am Ofal Preswyl a Dibreswyl yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnwyd am eglurder ynghylch gwerth y Bondiau Angladdau.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd yr Aelodau y Flaenraglen Waith

4. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

5. **<u>EFFAITH COVID-19 AR GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)</u>**

Cafodd yr Aelodau’r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith a gafodd pandemig COVID-19 ar y Gwasanaeth Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac adferiad, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

**CADEIRYDD**